
# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

Diwedd Haf 1997
AM DDIM (neu gyfraniad)

Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear Cymru




## Llygredd ymbelydrol a chancr yng Nghymru

### Alldafliad o brofion niwclear

Er 1975 mae Cymru wedi dioddef haint o gancr yn deillio o niwed genetig oherwydd llygredd ymbelydrol. Ffynhonnell y llygredd hwn oedd profion bomiau niwclear yn yr awyrgylch rhwng 1955 a 1963. Er ffrwydro'r rheini yr ochr draw i'r blaned, gyrrodd nerth y ffrwydradau lawer iawn o ddeunydd ymbelydrol i'r atmosffer uchaf a chwympodd hwnnw ar ardaloedd glaw trwm, fel Cymru. Nid oes unrhyw amheuaeth am hyn: darganfuwyd bod defnyddiau fel Strontiwm-90 a Caesiwm-137 mewn bwyd gan wyddonwyr y llywodraeth, ac mae'r tueddiadau yn ystod y cyfnod hwn yn glir i bawb eu gweld. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ffigurau hefyd sy'n dangos cynnydd serth yng nghyfradd marwolaethau babanod ar yr un pryd â phan oedd Stroniwn yn ei anterth ym 1961-4. Ni ddywedwyd dim am hyn: roedd materion niwclear yn rhan o'r Rhyfel Oer ac ni ellid caniatâu unrhyw awgrym bod profion niwclear eu hunain efallai'n lladd pobl. Pe gwnaed hynny, sut y gallai unrhywun awgrymu y gellid eu defnyddio mewn rhyfel?

### Mwyaf o law, mwyaf o alldafliad, mwyaf o achosion o gancr

Y penllanw hwn mewn marwolaethau babanod (tuedd a welwyd ym mhedwar ban y byd) oedd yr arwydd cyntaf bod rhywbeth yn digwydd yng Nghymru i'n plant ac i ninnau. Bymtheg mlynedd yn ddiweddarach, dechreuodd y niwed genetig a wnaed gan y radio-isotopau amlygu ei hun fel cancr, a dechreuodd cyfraddau'r afiechyd gynyddu. Erbyn 1985-87, roedd cyfraddau pob cancr yng Nghymru (wedi eu cymhwyso ar gyfer oed) 25% yn uwch nag yn Lloegr. At hynny, roedd ffurf y duedd mewn amser yn adleisio'n union y tueddiadau mewn llygredd ymbelydrol ugain mlynedd ynghynt. Ar gyfer rhai mathau o gancr, roedd y sefyllfa'n waeth: 36% am gancr y fron mewn menywod, 42% am lewcemia, 50% am gancrau plentyndod. Yn arwyddocaol, yng ngogledd Cymru y ceid mwyaf o law, y lefel uchaf o lygredd ymbelydrol a hefyd y gyfradd uchaf o achosion o gancr. Yn arwyddocaol hefyd, o safbwynt y rheini a ddadleuai mai llygredd cemegol oedd achos y cynnydd mewn cancr, roedd gan ardaloedd llai glawiog, fel East Anglia, raddfeydd cancr is, bedair

*Parhad ar dud. 2*

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

gwaith yn is yn achos lewcemia mewn plant.

## Sellafield a'n glannau: y môr mwyaf ymbelydrol yn y byd

Nid alldafliad profion bomiau byd-eang mo unig ffynhonnell llygredd ymbelydrol yng Nghymru, wrth gwrs. Môr Iwerddon yw'r môr mwyaf ymbelydrol yn y byd, ac yntau wedi ei ddefnyddio er 1952 fel carthbwll ar gyfer llygredd ymbelydrol o waith llaw dyn o waith ailbrosesu BNF yn Sellafield. Daw'r llygredd i'r lan gyda silt ac ewyn ar hyd arfordir Cymru ac Iwerddon. Nid oedd y diwydiant niwclear, a oedd wedi dadlau bod gollwng eu gwastraff ym Môr Iwerddon yn ddull diogel o gael gwared ohono, wedi gallu rhagweld ffiseg hynod y modd y dychwelai Plwtoniwm i'r tir o'r awyr. Mesurwyd plwtoniwm o Sellafield yn yr awyr ac ar samplau biolegol cyn belled â 100 cm o lan y môr. Mae pysgod cregyn a physgod o Fôr Iwerddon yn cynnwys ymbelydredd o Sellafield, ac mae perygl bychan ond real yn bod os bwytir hwy. Daliwyd cimychiaid yn ddiweddar y gellid eu dosbarthu fel gwastraff niwclear lefel-isel o dan Ddeddf Defnyddiau Ymbelydrol 1993.

## Sgersli bilîf – cynlluniau ar gyfer Trawsfynydd

Fel na bai hynny'n ddigon, dyna Drawsfynydd wedyn, yr unig orsaf ynni niwclear ym Mhrydain nad yw ar lan y môr, sydd wedi llygru ei llyn oeri i'r fath raddau fel bod gwaelodion y llyn bellach yn cynnwys mwy o wastraff niwclear lefel-isel nag sydd gan NIREX i gael gwared ohono. Dyma'r llyn mwyaf ymbelydrol yn Ewrop, siwr o fod. Y gwallgofrwydd diweddaraf yn Nhrawsfynydd yw bod Magnox Electric, sydd am gael gwared â'r embaras hwn, wedi rhoi'r llyn yn rhodd i bobl pentref Trawsfynydd, i'w ddatblygu fel cyfleuster twristaidd. Anogir plant wedyn, i gymryd rhan mewn campau dwr, wedi eu cyllido'n rhannol gan Fwrdd Croeso Cymru, fel rhan o'r ymgais hynod gan y diwydiant i greu delwedd werdd a chyfeillgar. Sgersli bilîf!

## Chernobyl a'r cynnydd mewn lewcemia mewn plant Nghymru

Ac i gloi, i'r rheini sydd yn edrych am fwy o dystiolaeth bod ymbelydredd lefel-isel yn effeithio'n andwyol ar iechyd, nad anghofiwn Chernobyl. Ni wyddys hyd yma beth fydd effaith terfynol y ddamwain hon ar gyfraddau cancr yng Nghymru. Yr effaith ar y pryd oedd cynnydd ystadegol arwyddocaol yn nifer y babanod a aned â phwysau geni isel dros ben. At hynny, yn y pum mlynedd ar ôl Chernobyl, bu cynnydd ystadegol arwyddocaol mewn lewcemia ymhlith plant yn y grwp oedran 0-4 blwydd, sef y rheini a aned wedi'r ddamwain.

## Mae'n bryd dwyn yr holl hunllef niwclear marwol i ben

Mae gan bobl Cymru bob rheswm dros deimlo'n ddig ac yn ofnus. Mae a wnelo profion bomiau, Trawsfynydd a Sellafield oll ag arian, pwer a rhyfel, ac ni ofynnodd yr un ohonom ni amdanyn nhw. A'r sgîl-effeithiau yw marwolaethau ofnadwy ac annhymig ein plant a'n hanwyliaid, a phlant ein plant hefyd. Mae'n hen bryd i ni roi terfyn ar y prosiect niwclear marwol, unwaith ac am byth.

***Chris Busby***

*Mae Dr Chris Busby yn gemegydd ffisegol ac yn ymchwilydd annibynnol i effeithiau ymbelydredd lefel-isel ar iechyd. Ym 1995, ysgrifennodd Wings of Death: Nuclear Pollution and Human Health sydd yn amlinellu canlyniadau astudiaethau sy'n dangos mai lefelau isel o ymbelydredd o waith llaw dyn sy'n gyfrifol am yr haint ddiweddar o gancr yng Nghymru a mannau eraill. Estynwyd gwahoddiad iddo gan Fudiad Amgylchedd a Datblygiad y Menywod i gyflwyno papur yng Nghynhadledd y Byd ar Gancr y Fron yn Kingston, Ontario ym mis Gorffennnaf a bu hefyd yn annerch y 12fed Gynhadledd Sefydlog ar Ymbelydredd Lefel-isel ym Mryste ar Orffennaf 19eg. Bu wrthi'n astudio llygredd ymbelydrol yng Nghomin Greenham ger Newbury yn ddiweddar, a bydd yn adrodd y mis nesaf yn y British Medical Journal bod gan ardaloedd sirol sy'n cynnwys alldafliad niwclear o'r Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston a'r Sefydliad Ymchwil i Ynni Atomig yn Harwell gyfraddau arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU o farwolaethau plant o lewcemia.*

**WEITHREDU**

*Fel rhan o'r prosiect hwn sydd yn dal i fynd yn ei flaen, carai Dr Busby glywed gan unrhywun a fu'n byw neu'n aros yng Nghomin Greenham ac sydd wedi dioddef unrhyw anhwylder y teimlant y gallai fod yn gysylltiedig ag ymbelydredd. Sgrifennwch at Dr Chris Busby, os g. yn dda, d/o Yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-Isel, 38 Heol y Frenhines, Aberystwyth SY23 1PU. Cedwir pob gwybodaeth yn gyfrinachol.*

# Rhown derfyn ar allforio arfau i Indonesia!

## "Atal yr Hawks Caerdydd" yn mynd ati

Trefnodd Atal yr Hawks Caerdydd brotest ffugio marw ar risiau'r Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd i alw sylw at gyflwr truenus Dwyrain Timor. Mae cyhoeddiad diweddar yr Ysgrifennydd Tramor newydd, Robin Cook, yr adolygir y sefyllfa parthed arfau i Indonesia yn arwydd o obaith y gwaherddir allforio cyn bo hir. Ffurfiwyd y grwp wedi i ddwy o fenywod "Hadau Gobaith" mudiad Ploughshares siarad yng Nghaerdydd yn gynharach eleni. Ym mis Ebrill, trefnodd y grwp berfformiad Theatre Wallop o "A Hammer in the Hand" – drama am weithwyr British Aerospace ac effaith yr awyrennau rhyfel Hawk y maent yn eu hadeiladu ar boblogaeth Dwyrain Timor.

Ceisir cyfarfod gyda Ron Davies, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i geisio sicrwydd yr atelir allforio arfau i Indonesia, ac y dileir trwyddedau cyfredol, nid eu gadael mewn bod fel sy'n bosibl. Mae 350 o gerbydau arfog, a wnaed ym Mhrydain, yn disgwyl cael eu hallforio i Indonesia ar hyn o bryd.

**WEITHREDU**

*Sgrifennwch nawr ar eich AS, Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA yn gofyn iddi hi/iddo fe gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am embargo ar allforio offer milwrol. Gellir cysylltu â'r Ymgyrch yr erbyn y Fasnach Arfau ar (0171) 281 0297.*

*I chwarae rhan ac am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ben Gregory, Atal yr Hawks Caerdydd (01222) 626961, neu Awel Irene, Atal yr Hawks Gwynedd (01766) 771 100.*

*Mae Theatr Wallop yn gobeithio mynd â "A Hammer in the Hand" ar daith yn yr hydref. Dylai unrhywun a allai helpu gyda threfnu perfformiad neu godi arian gysylltu â Frank Kennedy, Swyddfa Cyfiawnder a Heddwch, 152 Brownley Hill, Lerpwl; L3 5RQ (0151) 708 6506.*



# Gwastraffu £45 biliwn o arian y trethdalwyr ar Trident

Mae ffigurau'r llywodraeth yn dangos bod cost gyfredol y rhaglen arfau niwclear Brydeinig yn fwy na £1,700 miliwn y flwyddyn.

Amcangyfrifir bod cyfanswm cost system arfau niwclear Trident yn £12,570 miliwn. Cred CND bod y gwir ffigur rhwng £33,000 miliwn a £45,000 miliwn.

Mae rhai'n honni ar gam bod y rhan fwyaf o'r arian ar gyfer Trident wedi ei wario neu ei ymrwymo eisoes. Pe dileid Trident, gellid arbed y gronfa fawr wrth gefn a gynhwysir yn y gyllideb, sef swm o £258 miliwn llynedd.

Amcangyfrifir yn swyddogol ei bod yn costio rhwng £200 miliwn a £240 miliwn i redeg Trident bob blwyddyn. Dyw'r costau swyddogol hyn ddim yn cynnwys, er enghraifft, gwarchod yr arfau niwclear, cyfathrebu, megis y cyfleuster gorchymyn a rheoli yn Northwood, llongau sgubo ffrwydron a ddefnyddir i gadw llwybr clir i Trident a chostau dadgomisiynu a iawndal iechyd, o bosib.

**WEITHREDU** *Sgrifennwch at y Prif Weinidog, 10 Downing Street, Llundain SW1A 2AA. Heriwch y ffigurau swyddogol a dywedwch wrtho mai gwell fyddai gwario'r arian hyn ar iechyd, addysg a thai.*




**"Pwy yw'r swyddogion hyn sydd wrth y llyw y tu ôl i ddrysau caeŠdig? Yn llywio'n planed, yn llywio bywydau'n plant? A'n dwyn felly yn ddi-hid a phendramwnwgl i ddibyn dinistr?... Mae fel pe bai rhyw ben-pwysigyn llechwraidd, llyfn wedi cipio allweddi'r greadigaeth, pentyru arfau ar bob llaw, afradu ein harian, condemnio'r tlawd – a phara, drwy hynny i gyd, yn ffroenuchel braf, uwch law'r llanast, heb fod yn atebol i neb."**

*Daniel Berrigan*

# Eisiau Heddwch? Gweithiwch amdano!

Gyda sectyddiaeth noeth yn ailgychwyn y lladdfa a danfon ias oer drwy bob lefel o gymdeithas yng Ngogledd Iwerddon, mae perygl gwirioneddol y bydd llawer yn digaloni'n llwyr yng ngwydd nifer bychan sy'n mynegu mewn ffordd mor waedlyd yr hyn sydd ym meddyliau a chalonau cymaint o bobl eraill.

Bydd rhai'n gobeithio y bydd y broses heddwch bondichrybwyll rhwng cynrychiolwyr etholedig yn newid pethau: ac yn sicr, rhaid gobeithio na wnaiff y rheini'r gynyddu'r perygl, ac y llwyddant hyd yn oed i dawelu tipyn ar bethau. Ond nid yw strwythur plaid-wleidyddol Gogledd Iwerddon yn ddim mwy na datganiad o'r broblem: hawdd ethol pobl fel cynrychiolwyr llwythol gan roi argraff o ddemocratiaeth am y gwnaed hynny drwy'r blwch pleidleisio.

Ond ystyr democratiaeth, sy'n tarddu o'r Roeg 'demos kratis', yw 'nerth y bobl'. Mae ethol pobl fel cynrychiolwyr llwythol yn mynegi gwendid y bobl: ni wna ddim mwy na thanlinellu afiechyd dwys bod yn gaeth i syniadau atafistaidd am hunaniaeth, gan lethu dynoliaeth gwirioneddol y mwyafrif.

Mae'r Bobl Heddwch yn dal yn ffyddiog bod gan bobl Gogledd Iwerddon ormod o ddealltwriaeth, tosturi, ac uchelgais drostynt hwy eu hunain a'u plant i fodloni ar gael eu dal yn y fagl hon am byth.

Dyna pam mae'r Bobl Heddwch wedi cyrchu safle 'gwleidyddol' erioed sydd yn anelu at greu cymuned wirioneddol a gwladwriaeth yng Ngogledd Iwerddon y gellir gweld eu bod yn seiliedig ar y cyfryw hyn, a all gwmpasu agweddau lliwgar, diniwed hunaniaeth heb fod yn gaeth i rymoedd mwy tywyll hunaniaeth. Felly dyna'r her: os ydych am weld terfyn am byth ar arswyd torfol a mynegiant trefniedig hynny drwy frawychaeth, rhaid i chi ymuno yn yr ymdrech a chanolbwyntio'ch doniau eich hun ar greu'r gymuned newydd, o'r gwaelod i fyny ac ar draws yr holl sbectrwm.

Bydd unrhyw beth yn llai na hynny yn gadael yr haint heb ei chyffwrdd, yn barod i ffrwydro eto, drachefn a thrachefn. Ai dyna fynnwch chi?

Neu ydych chi am symud oddi ar eich pen-ôl a gwneud rhywbeth, yn hytrach na beio'r un hen fychod diahangol?

Mae'r rheini sy'n arddel trais yn ysglyfaeth gwan eu meddwl, yn anad dim byd arall, i ddynamig torfol llwythol. Os ydych chi'n credu eich bod yn ddigon cryf eich meddwl i sefyll uwch law'r ddadl lwythol, yna mae gwaith ar eich cyfer – heb ddryllau, a heb obaith elw personol.

Mae'n her sy'n gofyn am arwyr tawel, am y fath o wroldeb y mae mamau a theuluoedd wedi ei arddangos y tu allan i olwg y cyfryngau drwy gydol y trafferthion.A hyd yn oed os nad ydych yn teimlo'n ddigon cryf eich meddwl i sefyll uwch law'r llwyth, efallai y gellwch dderbyn mai drwy ddulliau di-drais y mae symud ymlaen. Gair o rybudd, fodd bynnag: dim ond y cryf iawn eu meddwl all weithredu'n wirioneddol ddi-drais. Mae gwneud hynny'n gofyn gonestrwydd cydwybod, a pharodrwydd i wynebu'r gwirionedd amdanoch chi eich hun ac eraill yn ddiamwys.

A chan bod y gwirioneddau dyfnaf am fodau dynol meidrol yn llawer pwysicach na chysur y llwyth, bydd bywyd di-drais – byw yn ôl y gwirionedd – yn eich torri i ffwrdd o ddibyniaeth ar y llwyth yn y man.

Ydych chi'n barod am hynny?

**WEITHREDU** *Ymddangosodd yr erthygl hon yn wreiddiol yn rhifyn mis Mai o The Citizen, The Newspaper of the Peace People. Mae'r papur-newydd ardderchog hwn sy'n ymdrin â materion byd-eang yn ymwneud â heddwch ar gael am £6 (£12 o danysgrifiad cefnogol) gan: Peace People, 244 Lisburn Road, Belfast BT9 6GE (01232) 663465. Sieciau'n daladwy i 'Peace People'.*

*Diolch o galon i'r Bobl Heddwch am ganiatâd i ni ailargraffu'r erthygl hon.*

## UDA: Ail-gychwyn profion niwclear yn Nevada

Mae ymgyrchwyr dros ddileu arfau niwclear wedi bod yn protestio ar Safle Profion Nevada yn yr UD, yn galw am atal cynlluniau i ailgychwyn brofion arfau niwclear eleni, ac atal cludo gwastraff ymbelydrol lefel-uchel a lefel-isel i Sogobia Newydd – tiroedd llwyth y Shone Gorllewinol. Er gwaethaf y moratoriwm presennol ar brofion niwclear ar y safle, mae'n cael ei gadw'n barod ar gyfer profion yn y dyfodol o dan raglen newydd "Stockpile Stewardship and Management" yr UD. Er bod llywodraeth yr UD wedi arwyddo'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr, mae'n bwriadu parhau i ddatblygu arfau niwclear a chadw cyfleuster Nevada yn barod i ailgychwyn profion graddfa-lawn o fewn chwe mis o rybudd.

Mewn gwrthdystiad ar y safle, restiwyd 16 o bobl. Byddant yn ymddangos ger bron llys ar Awst 6 – Dydd Hiroshima. Mae'r 16 yn gobeithio dwyn dadleuon CGPC a chyfraith ryngwladol ger bron y llys.

**WEITHREDU** *Negeseuon cefnogol a gwybodaeth bellach: The Nevada Desert Experience, Blwch Post 4489, Las Vegas, NV (702) 646-4814, UDA.*

## Israel: Vanunu – yn dal mewn cell ar ei ben ei hun am ddweud y gwir

Mae Mordechai Vanunu yn dal yn gaeth mewn cell ar ei ben ei hun mewn carchar yr Israel am geisio dweud y gwir wrth y byd am waith gwahanu plwtoniwm Israel yn Dimona. Mae llywodraeth Israel wedi cwyno wrth Amnest Rhyngwladol bod y rheini sydd wedi bod yn llythyru â'r awdurdodau Israeli ar ran Vanunu wedi eu "camhysbysu... yn llwyr anwybyddu ffeithiau'r achos".

Fel y dywedodd Daniel Ellsburg mewn cynhadledd ddiweddar:

"Dylid rhyddau Vanunu o'i gell unig ac o'r carchar nid am ei fod wedi 'dioddef digon' ond am fod yr hyn a wnaeth yn beth iawn iddo'i wneud o dan yr amgylchiadau."

Cynhelir gwylnos y tu allan i'r carchar a'r Knesset, preswylfa'r Arlywydd, a'r Llysgenadaethau Prydeinig, Eidalaidd ac Americanaidd bob dydd rhwng Medi 22 a'r 30ain. Bydd pobl o bedwar ban y byd yn cymryd rhan.

**WEITHREDU** *Gall unrhywun ddychmygu erchylltra cael eich cadw mewn caethiwed ar eich pen eich hun am 12 mlynedd. All carcharor felly byth dderbyn gormod o lythyron.*

*Sgrifennwch at Mordechai Vanunu, Carchar Ashkelon, Ashkelon, Israel; Ezer Weizman, Arlywydd Israel, 3 Stryd Hanassi, Caersalem, Israel; Llysgennad Israel, 2 Palace Green, Llundain W8 4QB. Am fwy o wybodaeth, gwrthbrawf i'r ateb a gewch gan y Llysgenhadaeth, a chyfraniadau i'r Ymgyrch: Yr Ymgyrch i ryddhau Vananu a thros Ddwyrain Canol Di-niwclear, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL.*

## Sir Benfro: un dyn bach ar ôl, ar ôl

Fel yr adroddwyd yn rhifyn blaenorol Heddwch, aed ati i geisio darbwyllo Cyngor Sir Penfro i ymuno â Mudiadau Ardaloedd Di-niwclear Cymru a Phrydain. Sir Benfro yw'r unig awdurdod unedol yng Nghymru sy'n dal heb ymuno. Mewn un bore, casglwyd dros fil o lofnodion yn Hwlffordd yn annog cynghorwyr i ailystyried ac ymuno â chyrff yr Ardaloedd Di-niwclear. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

**WEITHREDU** *Os carech wybod mwy/chwarae rhan, cysyllter â Mansel Kedward (01239) 891294 neu Paul Hawkes, CND Teifi Preseli (01239) 614856*

## Menywod yn Mynnu Diarfogi Niwclear! (WIND)

Rhwydwaith rhyngwladol o fenywod yn gweithio'n lleol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol dros ddiarfogi niwclear yw WIND, fel rhan o rwydwaith Dileu 2000.

Un o ymgyrchoedd Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid yw hon.

Mae WIND yn gwneud profiad menywod yn ganolbwynt i'w gwaith, gan gwestiynu pam mae rhaid profi gwrywdod drwy ryfel a pham mai cenedlaetholdeb eithafol a militariaeth wedi mynd yn rhemp.

**WEITHREDU** *Cysyllter â Margaret Miller, Balcombe House, Teapot Lane, Baltonsborough, Gwlad yr Haf BA6 8QE (01458) 851117 am wybodaeth bellach.*

## Cymro enwog yn y Gynhadledd ar Ddosau Isel o Ymbelydredd

Daeth ymwelydd annisgwyl i gyfarfod cynrychiolwyr y Gymdeithas Ynni Niwclear Brydeinig ar 'Effeithiau Dosau Isel o Ymbelydredd ar Iechyd: Her yr 21ain Ganrif". Am awr a hanner, safodd ffigur erchyll Angau ei hun ger bron y cyfarfod, wedi ei gadwyno ei hun i'r llwyfan. Dosbarthwyd copÿau o gyfrol Dr Chris Busby, Wings of Death: Nuclear Pollution and Human Health a thaflenni ymhlith y gwyddonwyr yn y Gynhadledd gan ymgyrchwyr eraill.

Gofynnai'r taflenni i'r cynrychiolwyr ddarllen y llyfr a'u holi eu hunain o ddifrif ynghylch tuedd a thwyll mewn ymchwil ar ymbelydredd.

Dr Chris Busby sgrifennodd erthygl clawr y rhifyn hwn o Heddwch. Mae'n byw ac yn gweithio yn Aberystwyth. (Credir bod Angau ei hun yn hanu o Lanfair ym Muallt.)

**WEITHREDU** *Mae Wings of Death (£10.99 yn cynnwys cludiant) ar gael gan yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, Llawr 1af, Ammondale, Spa Road, Llandrindod, Powys LD1 5EY.*

## Rwsia: Alexander Nikitin yn dal i wynebu cyhuddiad o deyrnfradwraeth



Mae dryswch yn dal i fod parthed pa gyhuddiadau yn union a wynebir gan Nikitin. Treuliodd 10 mis yn y carchar am ei waith yn amlinellu problemau llygredd ymbelydrol o Lynges Ogleddol Rwsia. Cafodd ei ryddhau o'r carchar ond mae'n dal i fod o dan wyliadwraeth gaeth a chyfyngir ar ei symudaidau. Fe'i hataliwyd yn ddiweddar rhag gadael ei gartref yn St Petersburg i fynychu seremoni yn yr UD i dderbyn Gwobr Amgylcheddol Goldman.

Ym Mhenrhyn Kola, ger y ffin â Norwy ar lannau Môr Barents, ceir y cyd-grynhoad mwyaf o adweithyddion niwclear yn y byd. Mae 52 o longau tanfor nas defnyddir bellach yno yn dal i gynnwys eu tanwydd, a 67 o longau tanfor niwclear sydd yn dal i weithredu. Mae'r perygl o lygredd ymbelydrol trychinebus, yn enwedig o longau rhydlyd sy'n gollwng, yn anferth.

Marwolaeth yw'r gosb eithaf am frad yn Rwsia.

**WEITHREDU** *Mae Tatiana Chernova, gwraig Nikitin, yn annog pobl i sgrifennu at yr awdurdodau yn Rwsia yn mynnu dileu'r cyhuddiadau. Sgrifennwch at yr Erlynydd, Y Cadfridog Yuri Skuratov, 103793 Moscow Bolshaya Dmitrova, 15a Rwsia.*

## Wcraen: Chernobyl

Mae'r Banc Ewropeaidd dros Ail-adeiladu yn ystyried cynllun i gwblhau dwy orsaf ynni niwclear yn Wcraen i gynyrchu pwer yn lle'r pwer a gyflenwir gan y ddau adweithydd niwclear sydd ar ôl, sef rhyw 50% o gyflenwad trydan y wlad.

Dywed Cyfeillion y Ddaear na fydd yr arian a ddarperir yn ddigon i gwblhau'r adweithyddion ond i safon isel iawn o ddiogelwch. Maent yn honni bod hyn yn fath o flacmôl, cau Chernobyl ddim ond i agor gorsafoedd niwclear eraill llawn mor anniogel. Dylid gwario'r arian ar fesurau cwdwraeth ynni.

Parhad ar dud. 5

### Caerdydd: Amersham International

Mae Hugh Richards o Gynghrair Gwrth-Niwclear Cymru wedi darganfod cysylltiad stadegol arwyddocaol rhwng cyfraddau marwolaethau ac afiechydon babanod yng nghylch Caerdydd a faint o dritiwm a nwy carbon 14 ymbelydrol a ollyngir gan waith Amersham i'r gogledd o'r brifddinas. Mae Amersham International yn cynhyrchu radio-nwclidau i ddibenion meddygol. Mae ymgyrchwyr yn y cymunedau lleol wedi cynnal cyfarfodydd i drefnu gwrthwynebiad i ollwng y defnyddiau hyn.

Mae'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear wedi cyfrannu arian i helpu Hugh Richards i wneud astudiaeth debyg yng nghyffiniau Sellafield. Gallai canlyniadau'r astudiaeth hon, ynghyd ag astudiaeth Caerdydd, beri i gwestiynau difrifol gael eu gofyn ynglyn â'r arllwysiant hyn.

Pan daflwyd tritiwm i afon ym Massachusetts UDA, arweiniodd at gynnydd o 50% mewn pum gwahanol fath o gancr, 40% o gynnydd mewn afiechyd y galon, a 110% o gynnydd mewn afiechydon heintus yn arwain at farwolaeth. Effeithiwyd ar y boblogaeth a lygrwydd gan broblemau eraill megis namau geni. Mae ymchwil epidemiolegol wedi darganfod cydberthynas rhwng tritiwm a syndrom Down.

Adroddwyd hefyd y bwriedir cludo gwastraff ymbelydrol o hen waith yr Awdurdod Ynni Atomig yn Harwell yn Lloegr, sydd yn mynd i gau, ar y briffordd i ffatri Caerdydd i'r storio yno. Saif ffatri Caerdydd yng nghanol siopau, cartrefi, ysgolion a swyddfeydd.

**# WEITHREDU**
*Mwy o wybodaeth gan Hugh Richards (01982) 570362 a Chyfeillion y Ddaear (01222) 229577.*

### Yr Alban... neu ar draeth cyfagos?

Daethpwyd o hyd i ronynnau o wraniwm cyfoethedig ym Mae Sandside ger Dounreay yn yr Alban. Mae Asiantaeth Amgylchedd yr Alban wedi rhybuddio "ped arhosent yn y perfedd, caech friw ar y stumog o fewn 4 i 6 awr – mae'r darganfyddiad hwn wedi bwrw amheuaeth ar amcangyfrifon blaenorol o'r tebygrwydd o ddod i gysylltiad â gronyn o'r fath".

### UDA: Helpwch i ryddhau Leonard Peltier

Fel yr adroddwyd o'r blaen yn Heddwch, carcharwyd Leonard Peltier, American Brodorol o weithredydd gwleidyddol, ym 1976 am lofruddio dau o swyddogion yr FBI. Roedd wedi bod yn ymgyrchu ers tro byd dros hawliau'r Sioux i dir a warantwyd iddynt gan Gytundeb Fort Laramie ym 1868. Tramgwyddwyd y Cytundeb hwnnw yn barhaus gan lywodraeth yr UD a chorfforaethau busnes er darganfod wraniwm ym Mryniau Duon Dakota ym 1951.

Mae Peltier wedi mynnu ei fod yn ddieuog, ac mae ffeiliau cyfrinachol yr FBI a ddaeth i glawr yn ddiweddar wedi datgelu bod Peltier ar restr y rheini a oedd i'w 'niwtraleiddio' oherwydd eu bod wedi cymryd rhan mewn protestiadau.

Er yr addefwyd nad oes tystiolaeth uniongyrchol yn ei erbyn, mae'n dal i fod yn y carchar, yn euog o ddim ond ceisio amddiffyn y tir a'i bobl.

**# WEITHREDU**
*Ysgrifennwch am gofyn am drugaredd i Pelteir (yr ymadrodd yw 'executive clemency') at:*
*Yr Arlywydd Bill Clinton, The White House, 1600 Pennsylvania Avenue, Washington DC 20500 UDA. Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Leonard Defense Committe, d/o Lesley Worrall, 140 Garmoyle Road, Lerpwl L15 5AD (0151) 733 7691.*

### Môr Iwerddon: gwastraff niwclear yn Ffos Beaufort

Mae Swyddfa'r Alban wedi cyfaddef y taflwyd hyd at 2 dunnell fetrig o wastraff ymbelydrol oddi wrth o leiaf dri chwmni preifat yn Ffos Beaufort, a ddefnyddiwyd hefyd fel tomen wastraff ffrwydron, chwe milltor o arfordir yr Alban.


Dywedodd y Gynghrair Geltaidd: "Mae llywodraethau Prydeinig wedi bod yn fodlon camarwain nid yn unig y Senedd ond hefyd y gymuned ryngwladol". Mae Alisdair Morgan, AS Plaid Genedlaethol yr Alban yn galw am ymchwiliad cyhoeddus llawn gan ddweud bod "y naill lywodraeth Brydeinig ar ôl y llall wedi ymddwyn mewn modd gwarthus ac anghyfrifol – ac yna wedi gweithredu mewn modd cyfrinachol a thwyllodrus i geisio celu eu ffolineb".

### Sweden a Sellafield: amheuon am THORP

Mae llywodraeth Sweden yn poeni am beryglon lledaeniad niwclear os gwahanir plwtoniwm oddi wrth danwydd hesb o orsafoedd niwclear o ganlyniad i ailbrosesu. Maent am i Sellafield ddychwelyd 140 tunnell fetrig o danwydd hesb a ddanfonwyd eisoed i THORP yn Sellafield.

Mae BNFL wedi gorfod ymgeisio am ganiatâd i gynyddu faint o dritiwm y gall ei ollwng i'r awyr gan iddo fethu amcangyfrif yn gywir faint o'r deunydd a ollyngid wrth i'r rhodenni tanwydd hesb gael eu dadbacio. Ar hyn o bryd, mae THORP yn rhedeg ar ddim ond traean o'i allu er mwyn cadw o fewn i terfynau gollwng y cytunwyd arnynt. Mae'r cynnydd arfaethedig yn hynny o dritiwm y bwriedir ei ollwng i'r awyr hyd yn oed yn fwy brawychus yng ngoleuni'r dystiolaeth am effaith y tritiwm a ollyngwyd gan Amersham International yng Nghaerdydd.

Gallai BNFL, am fuddsoddiad mawr, leihau faint o dritiwm y byddai'n ei ollwng i'r awyr, ond byddai hynny'n golygu lleihau elw BNFL ac yn costio i drethdalwyr. Mae'r Gymdeithas Amgylchedd ac Adnoddau Sosialaidd yn amcanfyfrif y gallai atal ailbrosesu yn THORP yn llwyr arbed £6 biliwn.




"Mae hi'n ffaith y bytith pobl gwn poeth waeth beth roddwch chi ynddyn nhw. Sy'n dod â fi at fy syniad am gael gwared o wastraff niwclear..."


# Ehangu NATO a'r Llywodraeth Lafur

Mae Llafur "yn ymrwymedig i NATO fel cyfrwng hanfodol diogelu buddiannau diogelwch Prydain" ond cred y bydd yn rhaid mynd ati mewn modd sensitif i ehangu NATO, er mwyn sicrhau nad ydym yn creu rhwystrau a rhaniadau newydd ar draws cyfandir Ewrop, "a rhaid i'r broses fynd law yn llaw â mesurau sydd yn cynnwys Rwsia mewn fframwaith diogelwch ehangach". Mae NATO, mewn unrhyw ffurf, yn creu rhwystrau a rhaniadau yn Ewrop.

Nid yw'r Llywodraeth Lafur yn cefnogi tynnu Undeb Gorllewin Ewrop (piler Ewropeaidd NATO niwclear arfog) i mewn i'r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn cefnogi atgyfnerthu swyddogaeth y Mudiad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop mewn sawl maes, yn cynnwys atal gwrthdaro ac adeiladu democratiaeth.

Bydd y penderfyniad yr haf yma parthed pa wladwriaethau gaiff ymuno â NATO yn effeithio'n ddwys ar ddiogelwch ac amddiffyn Ewrop yn y dyfodol.

Mae dadansoddwyr yng Nghyngor Gwybodaeth Diogelwch Prydain ac America wedi amcangyfrif ar sail manylion cyllideb yr UD, gan ddefnyddio'r dulliau safonol o rannu'r gost rhwng aelodau NATO, y bydd gofyn i Brydain gyfrannu £200 miliwn y flwyddyn am y 13 blynedd nesaf i dalu am ehangu'r Gynghrair. Byddai hyn yn cynyddu cyllideb 'amddiffyn' Prydain ar adeg pan mae ASau Llafur newydd wedi dangos yn glir eu bod am gwtogi ar wariant ar amddiffyn. Y cwestiynau y dylid eu gofyn yw nid "pryd fydd NATO'n ehangu" nac "a ddylai NATO ehangu" ond "pam mae NATO yn dal mewn bodolaeth?"




Mewn ymateb i'r camau tuag at ehangu NATO, dichon bod Rwsia wedi diarddel y polisi a fu ganddi cyhyd o "ddim defnydd cyntaf". Amlinellodd Dirprwy Ysgrifennydd y Cyngor Diogelwch, Boris Berezovsky strategaeth niwclear Rwsia mewn cyfweliad ar Radio Ekho Moskvy:

"Nid ydym yn son am fod y cyntaf i ymosod ag arfau niwclear er mwyn sicrhau mantais, ond os cawn ein gyrru i gornel heb ddim dewis arall, fe drown at arfau niwclear."

**MAE FFAIR ARFAU FWYAF PRYDAIN YN OL...**

**Mae'r Llywodraeth Brydeinig yn targedu llywodraethau gormesol ym mhedwar ban y byd**



**Y gwir bwynt dosbarthu**

CAMPAIGN AGAINST ARMS TRADE

Merch Kurdaidd ifanc yn dal gweddillion roced a daniwyd at ei phentref gan fyddin Twrci. Mae Twrci, y gwyddys ei bod yn sarhau hawliau dynol, wedi bod yn westai gwadd yn Arddangosfa Offer y Llynges Frenhinol a'r Fyddin Brydeinig. Ffoto: Richard Weyman

**GWARCHAE TORFOL 9AM, DYDD LLUN MEDI 1AF MAES AWYR FARNBOROUGH**

**MATHAU ERAILL O WEITHREDU UNIONGYRCHOL DI-DRAIS A GWYLNOS**

**Mwy o wybodaet gan yr Ymgyrch (0171) 281 0297**

**Cefnogwch y digwyddiad hwn, da chi!**

**CND Cymru Cyfarfod Cyhoeddus**

**Cymru'n Dweud Na i Trident!**

**20 Medi 1997 10.30am**

**Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd**

**Siaradwyr yn cynnwys**

*Bruce Kent*


*Is-Lywydd yr Ymgyrch Brydeinig dros Ddiarfogi Niwclear*

Croeso o bawb – dewch yn llu a dewch â'ch ffrindiau!

**Cyfarfod Blynyddol CND Cymru i ddilyn am 2pm**

Croeso cynnes i bob aelod a chynrychiolydd. Gwahoddir enwebiadau am Gadeirydd, pedwar Is-gadeirydd (un yr un o ogledd, de a chanolbarth Cymru ac un arall) a Thrysorydd – y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau a chynigion yw 1 Medi 1997.

**Am fwy o wybodaeth cysyllter â Jill Stallard (01550) 750260**



# CND Cymru'n mynd i Drumcree

Ym mis Gorffennaf, aeth dirprwyaeth o Gôr Cochion Caerdydd, oll yn aelodau o CND Cymru, ar daith o gefnogaeth i Wesyll Heddwch Menywod Ffordd Garvachy yn Portadown. Fe'u gwahoddwyd yno gan y glymblaid i ganu mewn gŵyl heddwch gymunedol a oedd wedi ei threfnu.

Casgliad o bebyll ar y bryn uwchlaw Ffordd Garvachy oedd y Gwersyll Heddwch, ryw hanner milltir o Eglwys Drumcree rownd y gornel. Yma, ymunodd y Côr â menywod lleol oedd wedi ymgynnull yn heddychlon i fod yn dyst i'r hyn oedd yn digwydd. Soniodd y menywod am y trais a oedd wedi gyrru nifer ohonynt allan o gymunedau cymysg ac sydd yn digwydd o gwmpas y Gorymdeithiau Oren bob blwyddyn. Mynegent eu gobaith bod Mo Mowlam a'r Llywodraeth Lafur newydd yn cynrychioli cyfle newydd i sicrhau heddwch. Diddanodd Côr Cochion y gwersyll â chaneuon Heddwch a Rhyddid.

Bob nos am 7pm byddai'r holl gymuned yn sefyll bob ochr i'r ffordd ar biced heddwch, yn galw am ddargyfeirio Gorymdaith yr Urdd Oren. Roedd yno bresenoldeb rhyngwladol. Canu'r Côr Cochion oedd canolbwynt y gwrthdystiad. Canai ceir eu cyrn i gefnogi'r baneri bob ochr i'r stryd – yn cynnwys baner CND Cymru.

Gwyliai menywod y ffordd o hyd. Am un o'r gloch fore Sul daeth y newydd da bod y fyddin Brydeinig yn gosod weiren bigog dros y ffordd i atal y teyrngarwyr. Disodlwyd yr ymdeimlad o ollyngdod a'r dagrau o lawenydd gan don o ofn pan daflwyd y menywod allan o'r gwersyll yn dreisgar. Taniwyd bwledi plastig a chafodd un sylwedydd rhyngwladol ei saethu yn ei wddf wrth i'r fyddin a'r RUC ddinistrio'r gwersyll.

Erbyn 3am roedd y gymuned yn eistedd ar y ffordd mewn protest, ond o fewn munudau, daeth ymateb anhygoel o dreisgar wrth i filoedd o filwyr a heddlu a cherbydau arfog gau'r strydoedd. Wrth i brostestwyr di-drais gael eu brifo, gwrthodwyd mynediad i gerbydau ambiwlans drwy linellau'r gelyn. Do, fe daflodd rhai llanciau gerrig a beth bynnag arall oedd wrth law, a thaflwyd tri bom petrol at gerbydau arfog, ond roedd trais yr awdurdodau ar raddfa lawer mwy.

Erbyn 8am roedd y trais wedi gostegu. Roedd 18 o bobl wedi gorfod mynd i'r ysbyty a chawsai cannoedd eraill eu hanafu. Roedd trigolion lleol yn ysu am gael mynd i'r Offeren yn eu heglwys leol yr ochr arall i Ffordd Garvachy. Chawson nhw ddim mynd heibio, felly dyma gynnal gwasanaeth awyr-agored gyda thanciau arfog yn ein hamgylchynu. Canodd ein côr "Senzenina – What have we done to deserve this?" – cân ryddid hardd iawn o Dde Affrica. Cafwyd moment bwerus iawn pan aeth yr offeiriad, a oedd wedi bod yn son am garu ein gelynion, at y milwyr i dderbyn llaw cymod.


Wrth i'r Orymdaith Oren ddi-sŵn fynd heibio, wedi ei gwarchod gan yr heddlu, trawodd y gymuned gloriau biniau sbwriel ar y llawr yn herfeiddiol. Llifodd pobl ifanc ddig a rhwystredig i'r strydoedd yn ddiweddarach gan losgi ceir a chau ffyrdd. Wrth i arweinwyr y glymblaid geisio eu hatal, eu hateb oedd "Pwy sy'n ein hamddiffyn ni? Dim yr heddlu, dim y fyddin, dim y llywodraeth Brideinig".

Pan ofynnwyd i'r heddlu gan aelod o'r côr pam dinistrio'r Gwersyll Heddwch, yr ateb oedd mai "ffrynt i ffatri fomiau ydoedd". Yn ôl y papurau, ymateb i fygythiadau yn erbyn y Gymuned Babyddol a bygythiadau marwolaeth gan yr UVF ydoedd. Mae'r gwleidyddion yn dweud na fyddan nhw'n siarad â neb sy'n arddel trais.

Er na ellid cynnal Gŵyl Heddwch, teimlem bod y Côr Cochion wedi cyfrannu mewn modd gwerthchweil i'r frwydr dros gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon.

***Ray Davies***




# "Arolwg Amddiffyn Strategol" y Llywodraeth

Mae'r llywodraeth Lafur newydd yn bwriadu cynnal "arolwg amddiffyn strategol er mwyn ailasesu buddiannau diogelwch ac anghenion amddiffyn hanfodol Prydain yng ngoleuni'r newidiadau mawr yn y sefyllfa ddiogelwch fyd-eang er 1990".

Er bod diwedd y "Rhyfel Oer" wedi newid strategaeth dargedu'r gwladwriaethau arfau niwclear, ni fydd yr Arolwg Amddiffyn hwn yn ystyried polisi arfau niwclear a Trident.

Mae CND yn mynnu na ddylai'r Arolwg hwn fod yn un cyfrinachol, ac y dylid cynnwys cyrff an-lywodraethol, academyddion a phwyllgorau dethol yn y broses.

**# WEITHREDU**

*Sgrifennwch at y Gwir Anrhyd. George Robertson, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, Prif Adeilad, Whitehall, Llundain SW1A 2HB yn gofyn am gynnwys Trident yn yr Arolwg Amddiffyn Strategol. Mae CND Prydeinig wedi paratoi dadleuon i'w gosod ger bron yr Arolwg Amddiffyn. Am fwy o wybodaeth, cysyllter â William Peden (0171) 700 2393.*



# Dyddiadau dyddiadur

**Awst 8-16** Taith feiciau Menywod ar y Ffordd dros Heddwch. *Mwy o wybodaeth, Sian (01222) 396563*

**Awst 6** Dydd Hiroshima – gweithred gan CND Cymru ar Faes y Steddfod Genedlaethol, Y Bala. *Cysyllter â Rod Stallard (01550) 750260*

**Awst 1-11** Gwersyll Heddwch Rhyngwladol, Pencadlys NATO, Brwsel, Gwlad Belg. Er gwaethaf penderfyniad y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, mae arfau niwclear yn dal yn ganolog i strategaeth filwrol NATO. *Cysyllter â: For Mother Earth, Lange Steenstraat 16/d, 9000 Gent, Gwlad Belg.*

**Awst 9** Gweithred Dydd Nagasaki ar Faes y Steddfod Genedlaethol – gweler uchod.

**Awst 9** Diwrnod Dileu Arfau Niwclear Byd-eang: protestiadau ar "safleoedd y troseddu". *Gwrthdystiadau yn Faslane (Yr Alban), Menwith (Swydd Efrog) ac Aldermaston (Berkshire). Mwy o wybodaeth gan CND Prydeinig (0171) 700 2393, CND Ieuenctid (0171) 607 3616 a Gwersyll Heddwch Menywod Menwith Hill (01943) 468593.*

**1 Medi** Llys y Goron, Reading. Achos llys Menywod Greenham. *Mwy o wybodaeth gan Sian Evans (01222) 396563.*

**Medi 6** 11am. Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd. Cyfarfod Cynghrair Wrth-niwclear Cymru. *Cysyllter â (01982) 570362.*

**Medi 3-7** Ffydd a Gwrthsafiad – archwiliwch y cysylltiad rhwng yr ysbrydol a gwrthsafiad di-drais. *Cysyllter â: Cymdeithas y Cymod (01832) 720257.*

**Medi 20** 10.30am, Y Deml Heddwch, Caerdydd. Cyfarfod Cyhoeddus CND Cymru gyda Bruce Kent – Byddwch yno! *Cysyllter â Jill Stallard.*


**Medi 20** 2.00am, Y Deml Heddwch, Caerdydd. Cyfarfod Blynyddol CND Cymru – croeso cynnes i bob aelod a chynrychiolydd. *Cysyllter â Jill Stallard.*

**Medi 25-28** Mosgo, Cynhadledd y Biwro Heddwch Rhyngwladol: "Diogelwch Byd-eang, Buddiannau Cenedlaethol – Swyddogaeth Cymdeithas Sifil". *Cysyllter ag IPB, 41 rue de Zurich, 1201 Genefa, Y Swisdir.*

**Tachwedd 1** 11am Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd. Cyfarfod Cynghrair Wrth-niwclear Cymru. *Cysyllter â (01982) 570362.*

**Tachwedd 22-23** Cynhadledd CND Prydeinig, Prifysgol Llundain, tâl cofrestru £25 (£8 consesiynol). *Cysyllter â Tony Myers (0171)700 2393. Dyddiad cau ar gyfer cofrestru: 24 Hydref.*

Mae hedfan isel yn cwacers!



Cwynwch ...

I'r weinyddiaeth amddiffyn 0171 218 9000
I'ch AS: Ty'r Cyffredin, Lundain SW1A 0AA

**I want to join the Campaign for Nuclear Disarmament**

Name ______________________________

Address ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________ Postcode ______________

Telephone ______________ I enclose a cheque/PO for £ ______ payable to CND Cymru. Couple £15; Adult £10; Unwaged, pensioners, youth £3. Return to CND Cymru, Membership, Peace Shop, 56 Mackintosh Place, Roath, Cardiff CF2 4RQ

# CONTACTS

## CND CYMRU

THE PEACE SHOP
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH, CARDIFF

**NATIONAL SECRETARY**
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sîr Gaerfyrddin SA20 OLR Phone/ fax (01550) 750260

**CHAIRPERSON**
**David Morris MEP (01792) 643542**

**VICE-CHAIRS:**

NORTH WALES
**Dave Andrews** (01978) 310491

MID WALES
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

SOUTH WALES
**Ray Davies** (01222) 889514

**MEMBERSHIP**
**c/o The Peace Shop**

**AFFILIATIONS**
**Rhoda Jones** (01766) 762739

**TRADING**
**Jan Henderson** (01792) 830330

**TREASURER**
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**More Information, Ideas or offers of help? Please get in touch with your nearest CND Cymru Vice-Chair.**

**Want to complain about low level military jets? Get in touch with the MOD (0171 218 6020)**

# Prifysgol Morgannwg


## Yr Amgylchedd a Gwerthoedd Cymdeithasol BA(Anrhyd)

Gradd flaengar yn cynnig dull cyfannol o astudio'r amgylchedd

Nifer gyfyngedig o lefydd ar gael ym mis Medi 1997

**Ymholiadau: 01443-482121**

**http://www.prop.glam.ac.uk/deptinfo/esv-info.html**
**Côd UCAS: FL93**




# Peace Shop

**56 Mackintosh Place, Roath, Cardiff CF2 4RQ. Tel: 01222 489260**

**Goods from – Traidcraft, Amnesty International, Greenpeace, Friends of the Earth, CND, Earthcare, Unicef. We also stock many books, magazines, hand-made jewellery and crafts, T-shirts and stickers.**

**Fforwm Adnewyddu'r CU**

# PWYSO AR Y SENEDD

Ymunwch â ni i bwyso ar ASau yn San Steffan i annog y llywodraeth i wneud Cenhedloedd Unedig diwygiedig yn ganolog i bolisi tramor y DU

**Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur yn awr**

**Dydd Iau 23 Hydref 1997**
**2 – 5pm**

Gwybodaeth bellach:
3 Whitehall Court, Llundain SW1A 3EL
Tel: 0171 930 0272 Ffacs: 0171 930 5893
Email: unforum@gn.apc.org




## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Tachwedd 1997.
- Ffoniwch Jill am y dyddiad cau nesaf.
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (01550) 750260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 488748, email 100533.241@compuserve.com) am fanylion
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.